



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Sylwadau HMI o Heddlu Dyfed-Powys

Rwyf yn bryderus ynghylch sawl agwedd ar berfformiad cyffredinol Heddlu Dyfed-Powys. Oherwydd hyn, rwyf wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Prif Gwnstabl.

Rwyf yn falch bod y llu'n mynd i'r afael â'r pryderon rydym wedi eu codi yn ein hadroddiadau arolygiad, ond nid wyf yn tanbriso faint o welliant sydd ei angen i'r llu ddarparu gwasanaeth sy'n gyson dda.

Ers fy asesiad llynedd, mae'r llu wedi cyflwyno ymagwedd newydd tuag at drafod galwadau am gymorth sy'n ymgorffori asesiad o'r amgylchiadau ar gyfer pob digwyddiad o ran y bygythiad tebygol a'r risg o niwed i'r rhai hynny sy'n gysylltiedig.

Mae hyn wedi arwain at welliant calonogol yn yr ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau yn cynnwys pobl sy'n agored i niwed: er enghraifft, mae trafodwyr galwadau'n cynghori'r galwr ynghylch sut i gadw man y drosedd yn briodol, a sut i gadw'r rhai hynny sy'n gysylltiedig yn ddiogel.

Fodd bynnag, nid yw'r llu wedi mabwysiadu'r ymagwedd hon wrth benderfynu pwy ddylai fynychu digwyddiadau wedyn: anfonir swyddogion rheng flaen i ymchwilio pryd bynnag y cofnodir trosedd, hyd yn oed pan yw trosedd yn cyflwyno risg isel o niwed yn unig. Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r llu'n gwneud y defnydd gorau o amser swyddogion.

Yn gysylltiedig â hyn, rwyf yn poeni hefyd am y posibilrwydd y gallai cyfleoedd i gefnogi'r rhai hynny sy'n fwy agored i niwed gael eu methu: dyrennir achosion i'w hymchwilio i ba swyddog bynnag sy'n digwydd bod ar gael yn hytrach nag i ymchwilwyr â'r sgiliau a phrofiad priodol. Mae hyn yn golygu efallai nad yw rhai ymchwilwyr yn gwbl gymwys i ddelio â'r holl achosion a ddyrennir iddynt. Byddai ymagwedd fwy strwythuredig tuag at adleoli swyddogion yn mynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae gan Ddyfed-Powys ymagwedd dda tuag at atal troseddu ac mae wedi neilltuo digon o adnoddau i blismona cymdogaeth. Mae'n dda o ran mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig, ac mae'n gweithio gyda gwasanaethau heddlu eraill i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o fygythiadau difrifol. Hefyd, mae'r llu'n dda o ran rhwystro pobl rhag ymgysylltu â throseddau difrifol a threfnedig, ac o ran mynd ati o ddifrif i reoli troseddwyd mynych .

Mae'r llu'n tynnu ar amrediad eang o wybodaeth i lywio ei ddealltwriaeth o'r bygythiadau cyffredol a wynebir gan bobl Dyfed-Powys. Fodd bynnag, mae angen

iddo wneud rhagor i ddeall galwadau llai gweladwy am ei wasanaethau, megis troseddu ar y rhyngwrwyd, a sut y gallai galw newid yn y dyfodol. Adeg ein harolygiad, roedd y llu'n ceisio datblygu ei ddealltwriaeth o'r galw am ei wasanaethau trwy ei brosiect 'gwario'n ddoeth'.

Er bod gan Ddyfed-Powys hanes da o gyflawni arbedion ariannol, rwyf yn poeni nad oes ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o hyd o gostau, nac ansawdd, y gwasanaeth a ddarperir trwy ei fodel gweithredu cyfredol .

Doedd dim tystiolaeth bod ei ymrwymiad i fynychu pob trosedd a gofnodwyd wedi'i werthuso, ac felly nid yw'r llu'n gwybod cost yr ymrwymiad hwn, neu a yw wedi cael effaith ar ymchwilio i droseddu, lleihau troseddu neu hyder y cyhoedd. Hefyd mae gan y llu ddealltwriaeth gyfyng o lwyddiant rhaglenni newid blaenorol o ran lleihau costau a gwella ansawdd.

Nid oes gan y llu ddealltwriaeth gadarn o sgiliau a galluoedd ei weithlu. Mae llwythi gwaith anghytwys ar draws y llu: mae adnoddau wedi'u hadleoli heb dystiolaeth o unrhyw ddadansoddiad o'r galw'n wynebu gwahanol rannau o'r sefydliad, neu ynghylch a oes gan y rhai hynny a adleolir y sgiliau priodol.

Rwyf yn fodlon bod gan Ddyfed-Powys rywfaint o ddealltwriaeth o fygythiadau i uniondeb y sefydliad a'i fod yn ymgymryd â rhywfaint o asesu o lygredd posibl. Fodd bynnag, mae rhai bylchau yn ei ddealltwriaeth o i ba raddau mae llygredd yn cael effaith ar y sefydliad, ac i ba raddau y gallai swyddogion fod yn camddefnyddio eu hawdurdod er enillion rhywiol (hynny yw, manteisio ar sefyllfa o bŵer i gamfanteisio ar ddiodefwrwr hyglwyf o droseddu).

Roeddwn yn falch bod ein harolygwyr wedi canfod bod y gweithlu'n deall pwysigrwydd trin pobl â thegwch a pharch. Fodd bynnag, mae angen i'r llu wella'r ffordd mae'n ceisio adborth gan y bobl mae'n eu gwasanaethu fel bod y ffocws yn symud yn fwy tuag at ddeall y problemau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ganfyddiadau'r cyhoedd o degwch a pharch. Dylai hyn lywio'r gwaith mae'r llu'n ei wneud i wella ei ddealltwriaeth o alw'n ehangach, a sut mae'n cydweddu adnoddau â'r galw hwnnw.

Oherwydd y canfyddiadau hyn, rwyf wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Prif Gwnstabl. Nid wyf yn tanbriso faint o welliant sydd ei angen i'r llu ddarparu gwasanaeth cyson dda i bobl Dyfed-Powys. Rwyf yn sicr y bydd y llu'n ymrwymedig i wneud cynnydd sylweddol dros y flwyddyn sydd ar ddod.

Cyd-destun

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn darparu gwasanaethau plismona i ardaloedd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae gan Ddyfed-Powys lefel uchel o dlodi, er bod rhai ardaloedd mwy cefnog. Mae ardal y llu'n gartref i oddeutu 0.5 miliwn o bobl, sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn bennaf. Mae gan yr ardal

ardaloedd trefol bach, amlwg gan gynnwys trefi Caerfyrddin, Llanelli, Aberdaugleddau, ac Aberystwyth.

Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr prifysgol a'r niferoedd mawr iawn sy'n ymweld neu'n teithio trwy'r ardal bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys 500 o filltiroedd o draffyrdd a chefnffyrdd a phorthladd môr mawr.

Mae'r gyfran o ardaloedd yn Nyfed-Powys y rhagwelir (ar sail dadansoddiad economaidd a demograffig manwl) y byddant yn cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar y cyfan nodweddir yr ardaloedd mwyaf heriol gan grynhoad uchel o bobl sy'n byw, gweithio, cymdeithasu neu deithio yn yr ardal.

Mae nodweddion sy'n achosi a/neu'n awgrymu crynhoad o bobl yn cynnwys y nifer o safleoedd masnachol, gan gynnwys safleoedd trwyddedig a safleoedd bwyd cyflym, cludiant cyhoeddus, ac amddifadedd cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd, cyfunir y nodweddion hyn. Mae ardal y llun fawr iawn, o gymharu â lluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n cymryd amser cymharol hir i deithio ar draws yr ardal ar y ffordd, sy'n cynyddu'r anhawster ynghylch darparu gwasanaethau heddlu.

Trefniadau gweithio

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio fel rhan o uned gwrthderfysgaeth Gymru gyfan ac mae ganddo dîm arfau tanio ar y cyd gyda Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru.

Hefyd, mae wedi cyd-leoli gwasanaethau gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ac awdurdodau lleol cyfansoddol yn Llandrindod.

Mae cydweithrediad Ystadau Plismona Cymru'n paratoi opsiynau ar gyfer gwasanaeth ystadau ar y cyd ar gyfer plismona yng Nghymru, er mwyn lleihau costau, gwella cadernid a gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth.

Penodwyd Prif Gwnstabl a Dirprwy Brif Gwnstabl newydd o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Edrych ymlaen at 2017

Yn y flwyddyn sydd o'n blaen, bydd gen i ddiddordeb i weld sut y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn ymateb i'r asesiad hwn ac i'r meysydd gwella a nodwyd gan HMIC llynedd.

Bydd gen i ddiddordeb arbennig i weld:

- sut mae'r llun gwella'r ffordd mae'n dyrannu swyddogion i ymchwiliadau;

- sut mae'r llun datblygu ei ddealltwriaeth o alw trwy ei brosiect 'gwario'n ddoeth';
- sut mae'r llun gwella ei ddealltwriaeth o'r amrediad o wasanaethau y gall eu darparu, fel y gall gydweddu ei adnoddau â'r galw yn y dull gorau; ac
- i ba gyfeiriad y bydd y Prif Gwnstabl newydd yn arwain y llun.